Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Rhifyn 11 Gorffennaf 2005

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Beth Sy'n Eu Cyffroi?

Mae gwahanol bobl yn gwerthfawrogi gwahanol fathau o wobr am gyflawni gwaith da. Bydd rhai yn dyheu am gydnabyddiaeth ffurfiol yng ng ydd eu cyfoedion, bydd yn well gan eraill amser i ffwrdd i'w dreulio gyda'u teuluoedd, tra yn achos eraill dim ond bonysau arian fydd yn gwneud argraff arnyn nhw ac yn eu cymell ar gyfer y dyfodol.

Fel rheolwr, a ydych chi'n deall pa wobrau sy'n golygu fwyaf i ba bobl yn eich tîm? A yw'n realistig gweithredu system o wobrau wedi'u llunio'n benodol heb achosi dicter ymhlith eraill?

Teg a Diduedd?

Mae'r rhan fwyaf ohonom ni'n hoffi meddwl y byddem yn gwbl deg wrth drin materion disgyblaeth waeth pwy fyddai'n cael ei feio am gamymddygiad neu drosedd fwy difrifol.

Fodd bynnag, pe byddech chi'n penderfynu syrthio'n drwm ar anonestrwydd ar raddfa fach, ydych chi'n sicr y byddech chi mor llym â'r gweithiwr sy'n perfformio orau i chi a wnaeth lwad ffôn bersonol dramor, neu a roddodd nifer o ysgrifbinnau'r cwmni yn ei boced, ag y byddech ag un o aelodau gwannach y tîm nad yw, o bosibl, mor angenrheidiol i'r cwmni?

Gorchestion y Gorffennol!

Dywedodd gyn arweinydd yr Undeb Sofietaidd Mikhail Gorbachev un tro: "Os yw'r hyn a wnaethoch ddoe yn edrych yn fawr i chi o hyd, yna ni wnaethoch chi ryw lawer heddiw."

Bydd y rhan fwyaf o reolwyr yn tynnu nerth ac anogaeth o gyflawniadau'r gorffennol. A yw'n amhriodol ymfalchïo ychydig yn yr hen ffuddugoliaethau yma p'un a yw hynny'n lleihau ein hegni i barhau i gyflawni heddiw ac yfory?

Yr Ergyd Drom

Mae pwyslais mawr ar feddwl a chynllunio strategol ym maes cyfoes rheolaeth ac arweinyddiaeth, ond mae Cadeirydd y Post Brenhinol a chyn Brif Swyddog Gweithredol Wal-Mart Ewrop, Allan Leighton, o'r farn bod a wnelo 70% o lwyddiant â gweithrediad. Mae'n farn gref y mae cyn Gadeirydd IBM, Lou Gerstner, yn ei chefnogi.

A chymryd na fyddech chi am ficro-reoli a mygu eich tîm, pa ddulliau fyddwch chi'n eu defnyddio i sicrhau bod eich cynlluniau mwyaf gofalus yn cael eu gweithredu'n effeithiol?

Bod â Gweledigaeth a'i Chyfleu

Fel y gwnaeth y cyfansoddwyr caneuon Rodgers a Hammerstein ein hatgoffa sawl blwyddyn yn ôl: "os nad oes gennym freuddwyd sut allwn ni wireddu breuddwyd?"

Yn eich ymdrechion o ddydd i ddydd, ydych chi'n deall yn eglur beth yw'ch gwir nod tymor hir ar gyfer y busnes? Os oes gennych chi freuddwyd, sut allwch chi sicrhau eich bod yn ei chyfleu yn rheolaidd ac yn effeithiol i'ch tîm?

Gwefannau Rheolaeth

www.womensenterprise.co.uk

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn ddiweddar wedi lansio menter ar-lein i helpu merched sy'n ddarpar berchnogion busnes i sefydlu cwmnïau. Mae'n cynnwys llawer o straeon llwyddiant bywyd go iawn, a ddaw yn fyw drwy gyfrwng clipiau fideo. Byddwch hefyd yn dod o hyd i adysgrifau sgyrsiau gwe ar-lein gyda'r rheiny sy'n destun y straeon llwyddiant, a chyfoeth o gyngor defnyddiol ac ymarferol a geiriau o anogaeth. Mae'n werth cael golwg arni.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council